***Deon Ansawdd Academaidd***

Bydd y Deon Ansawdd Academaidd yn gyfrifol ac yn atebol i'r Rhag Is-Ganghellor, Addysg a Phrofiad Myfyrwyr (ESE), ac yn gweithio gyda nhw i ddarparu arweinyddiaeth academaidd strategol ar gyfer ansawdd a safonau academaidd ar draws holl ddarpariaeth y Brifysgol. Bydd y rôl yn rhan o Uwch Dîm Arwain ESE ac yn gweithio i gyflwyno strategaeth a mesurau llwyddiant y Brifysgol ar gyfer addysg a phrofiad myfyrwyr.

**Prif Ddyletswyddau**

- Darparu arweinyddiaeth academaidd uwch ar gyfer ysgogi a chynnal y safonau academaidd uchaf mewn addysgu, dysgu ac asesu ar raglenni israddedig ac ôl-raddedig (a addysgir ac ymchwil), ar gyfer pob dull cyflwyno gan gynnwys darpariaeth heb ei hachredu, y portffolio Dysgu Hyblyg a Gydol Oes ac Addysg Drawswladol ledled y Brifysgol
- Cydweithio â Deoniaid Addysg y Colegau, y Deon Ymchwil Ôl-raddedig a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys swyddogaethau gwasanaethau proffesiynol, i oruchwylio gweithredu a chyflenwi strategaeth Addysg a Phrofiad Myfyrwyr y Brifysgol fel y mae'n berthnasol i ansawdd academaidd. Mae hyn yn cynnwys creu portffolio o arlwy addysgol newydd gan gynnwys dysgu gydol oes hyblyg, modiwlaidd a mentrau addysg ansawdd uchel, cilyddol, trawswladol a datblygu portffolio academaidd dynamig, yn seiliedig ar fodelau cyflwyno ac addysgeg sy'n canolbwyntio ar y dyfodol.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gefnogi timau rhaglen wrth iddynt ymgysylltu a datblygu diwylliant academaidd cynhwysol o ansawdd uchel ac arfer da wrth ddatblygu, dilysu, adolygu a gwella rhaglenni, a gwreiddio'r arferion hyn yn barhaus drwy gydol y flwyddyn academaidd yn unol ag ymrwymiad y Brifysgol i gefnogi deilliannau myfyrwyr llwyddiannus, cynwysoldeb a chynaladwyedd. Sicrhau bod system ansawdd academaidd y Brifysgol yn bodloni gofynion rheoliadol, yn gallu dangos bod safonau academaidd yn cael eu gosod a'u cynnal yn briodol, yn cynnal profiad academaidd o ansawdd uchel, ac yn cefnogi gwella deilliannau myfyrwyr a gwella'r profiad dysgu.

**Cyfrifoldebau**

1. Goruchwyliaeth strategol dros reoliadau a pholisïau academaidd, datblygu a gweithredu system sicrhau ansawdd ystwyth ac addasadwy yn effeithiol (fel y'i diffinnir gan reoliadau, polisïau a phrosesau ledled y Brifysgol);
2. Sicrhau cydweddiad â safonau sefydliadol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys trosolwg o ansawdd darpariaeth achrededig a heb ei hachredu a nodir gan ddysgu gydol oes hyblyg, yn ogystal â darpariaeth newydd unrhyw addysg drawswladol;
3. Gweithio gyda Deoniaid Addysg y Colegau i gefnogi ysgolion academaidd i ddatblygu a chyflwyno cynlluniau addysg perthnasol i sicrhau ansawdd academaidd a sicrhau eu bod yn cydweddu â strategaeth y sefydliad, ac yn cyflawni Mesurau Llwyddiant y Brifysgol;
4. Gweithio mewn partneriaeth gydag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a'r tîm sabothol, a'r corff myfyrwyr ehangach, i sicrhau bod polisïau, gweithdrefnau ac arferion yn cael eu

cyd-greu'n effeithiol i ddiwallu anghenion corff astudio amrywiol a sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei glywed, yn cael gwrandawiad ac y gweithredir arno;

5. Goruchwylio gwaith Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd y Brifysgol (a'i is-bwyllgorau) gan weithio'n agos gyda Cholegau, Ysgolion a gwaith partneriaeth gyda thimau gwasanaethau proffesiynol perthnasol i gyflwyno darpariaeth addysgol ansawdd uchel a sicrhau bod safonau dyfarniadau'n cael eu gosod a'u cynnal yn briodol;
6. Bod yn hyrwyddwr proffil uchel dros ansawdd academaidd ledled y Brifysgol, gan hyrwyddo datblygiad academaidd o ran ansawdd a safonau ar draws y Brifysgol, a gweithio gyda chydweithwyr yn y gwasanaethau proffesiynol i ddarparu cymorth a gwasanaeth effeithiol i sicrhau ansawdd i'r Brifysgol
7. Arwain yr ochr academaidd o ran cydymffurfiaeth y Brifysgol â monitro rheoleiddio ac adolygu allanol (e.e. Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, Medr);
8. Defnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth a risg ar gyfer ansawdd academaidd wrth asesu cynlluniau gweithredu Ysgolion, Colegau a gwasanaethau proffesiynol ar gyfer gwella lle bo angen;
9. Arwain ar weithredu prosesau a fframweithiau asesu'r Brifysgol gan sicrhau eu bod yn hyrwyddo safonau academaidd uchel ac yn cynnal ansawdd gradd Prifysgol Caerdydd;
10. Gweithio gyda'r Cofrestrydd Academaidd, y Pennaeth Llywodraethu Addysg, Cyfarwyddwr yr Academi Dysgu ac Addysgu ac eraill ar ddatblygu ansawdd a safonau academaidd wrth gymeradwyo a monitro rhaglenni, gan sicrhau eu bod yn addas i'r diben, yn ystwyth ac yn ymateb i anghenion y Brifysgol;
11. Gweithio gyda chydweithwyr ledled y Brifysgol i sicrhau bod gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn arwain at wella ansawdd profiad myfyrwyr, a sicrhau bod llais y myfyrwyr ac anghenion y myfyrwyr yn ganolog i'r fframwaith ansawdd;
12. Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau allanol o ran sicrhau a gwella ansawdd, gan ddatblygu rhwydweithiau allanol;
13. Sicrhau bod themâu allweddol strategaeth y Brifysgol (e.e. cyflogadwyedd, cynwysoldeb, cynaladwyedd) yn cael eu gwreiddio ar draws y portffolio o raglenni a chwricwla ledled y sefydliad. Sefydlu a chynnal cysylltiadau gwaith da gyda sefydliadau allanol gan gynnwys Medr, a gyda chydweithwyr cyfatebol Prifysgolion Cymru a rhwydweithiau ansawdd eraill;
14. Cynrychioli'r Rhag Is-Ganghellor ESE neu'r Brifysgol, bod yn aelod gweithgar a chynhwysol o'r Uwch Dîm Arwain ar gyfer Addysg, a chyflawni a chyfrannu at brosiectau, grwpiau a phrosesau penodol eraill y Brifysgol (fel IPP) yn unol â chais y Rhag Is-Ganghellor, ESE ac yn unol â blaenoriaethau ESE a'r Brifysgol.

**Cymwyseddau, Gallu a Phrofiad Allweddol**

- Hanes academaidd cryf o arwain newid sylweddol ac effeithiol mewn dysgu, addysgu a gwella profiad myfyrwyr

- Profiad o fodloni safonau sicrhau ansawdd cenedlaethol a/neu broffesiynol, statudol neu reoleiddiol, a gweithdrefnau gwella (e.e. adolygu, archwilio neu achredu ansawdd)
- Profiad amlwg o arweinyddiaeth academaidd a'r gallu i feddwl yn strategol a meithrin gweledigaeth gyffredin ymhlith cydweithwyr academaidd ac yn y gwasanaethau proffesiynol
- Hanes diamheuol o weithio mewn partneriaeth gyda myfyrwyr i arwain gwelliannau i raglenni a'r cwricwlwm, a chyflawni ar wella deilliannau a phrofiad myfyrwyr
- Dealltwriaeth dda o drafodaethau cenedlaethol ar sicrhau a gwella ansawdd addysg uwch yn y DU
- Profiad amlwg o arweinyddiaeth academaidd a'r gallu i feddwl yn strategol a meithrin gweledigaeth gyffredin ymhlith cydweithwyr academaidd ac yn y gwasanaethau proffesiynol.
- Hanes diamheuol o feithrin perthnasoedd gwaith mewnol ac allanol effeithiol a chynhyrchiol
- Profiad o gysylltu â chymunedau allanol neu broffesiynol mewn perthynas â dysgu ac ansawdd addysgu
- Meddu ar Gymrodoriaeth Uwch Advance HE, neu barodrwydd i gyflawni hyn yn y tair blynedd nesaf.

**Priodoleddau a Sgiliau**

- Gallu amlwg yn arweinydd tîm, a’r gallu i ysbrydoli a chymell pobl eraill
- Sgiliau cyd-drafod da, y gallu i'ch ysgogi eich hun gyda menter, hyblygrwydd, meddwl agored ac agwedd gall-wneud
- Arddull reoli fyfyriol, gynhwysol a cholegol sy'n gallu sefydlu perthnasoedd ar draws sbectrwm eang o randdeiliaid, gan gynnwys cydweithwyr, myfyrwyr a grwpiau allanol
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig, sgiliau rhwydweithio a hyfforddi tîm

Bydd hon yn rôl 0.6 CALl am dymor penodol o dair blynedd. Bydd deiliad y rôl yn cael lwfans blynyddol di-bensiwn o £4500.